


UCU
University and College Union
Undeb Prifysgol a Choleg Cymru

UCU RISING

# DIGON yw DIGON

## CEFNOGWCH EIN STREIC

# PAM RYDYM YN STREICIO?

Mae ein cyflog wedi'i dorri 25% ers 2009. Oherwydd y pwysau a roddwyd ar gyflogwyr yn sgil ein streic diweddar, gwnaethant gynnig cyflog a oedd werth rhwng 4-5% ar gyfer 2023-24 yn wreiddiol. Nid yw'r cynnig o 3% o gynnydd ar gyfer 2022-23 wedi cael ei wella. Mae'r 'cynigion' hyn yn cynrychioli toriad anferth mewn termau real i gyflogau o gymharu â chwyddiant ac nid ydynt yn ymgais wirioneddol i ddatrys yr anghydfod.

Mae ein hincwm pensiwn USS gwarantedig wedi'i dorri 35%, er bod y cynllun bellach mewn gwarged.

**Mae gorweithio, ansicrwydd a chyflog gwael yn effeithio ar ein gwaith ac addysg ein myfyrwyr.**

## BETH RYDYM YN GOFYN AMDANO?

1. Cyflog teg. Gweithredu dros fylchau cydradd rhwng cyflogau.
2. Dileu swyddi dros dro.
3. Gweithredu dros lwythi gwaith.
4. Adfer buddion pensiwn USS. Prisiad newydd o gynllun pensiwn USS.

## A ALL PRIFYSGOLION EI FFORDDIO?

- Daeth ein cyflogwyr â blwyddyn 2020-21 i ben gyda £2.4bn yn fwy o arian parod yn y banc na'r hyn oedd ganddynt ar ddechrau'r flwyddyn.
- Yn hytrach na buddsoddi mewn staff mae ein cyflogwyr yn gwario biliynau ar brosiectau diwerth.
- Mae'r bobl sy'n rhedeg ein prifysgolion yn ennill hyd at £500,000 y flwyddyn ac yn hawlio miliynau mewn treuliau.
- Mae'n bryd i brifysgolion fuddsoddi yn eu hased fwyaf: eu staff!

## BETH AM EIN MYFYRWYR A'U HADDYSG?

- Streicio yw'r dewis olaf bob tro; y peth olaf y mae unrhyw un ohonom am ei wneud yw niweidio addysg myfyrwyr.
- Oherwydd y system reoli, nid oes gennym unrhyw ddewis arall ond cymryd camau i ddiogelu ein cyflog, ein pensiynau a'n hamodau.
- Nid dim ond er eu budd eu hunain y mae staff yn streicio, ond er mwyn diogelu ansawdd yr addysg a roddir i fyfyrwyr.
- Ni ellir disgwyl i staff ansicr, sy'n cael eu llethu gan waith a heb gyflog digonol sicrhau'r canlyniadau gorau i fyfyrwyr: ein hamodau gwaith ni yw amodau dysgu myfyrwyr.
- Rydym yn falch o gefnogaeth myfyrwyr ar ein llinellau piced.

**Cofrestrwch fel cefnogwr yn:** ucu.org.uk/supportthestrikes

**Ymwelwch â'n llinellau piced a rhowch wybod i ni eich bod yn ein cefnogi**

**Cyfrannwch at ein cronfa brwydro:** ucu.org.uk/fightingfund

**Dangoswch eich cefnogaeth drwy bostio ar y cyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio:** #ucuYnCodi / #ucuRISING

ucu UCU RISING